




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu | Library & Learning Resources

LLAWLYFR CYFEIRNODI

IEEE

PCYDDS: Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

Croeso

Croeso i'r 3ydd argraffiad diwygiedig o Lawlyfrau Cyfeirnod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant!

Mae cyfeirnod i'n fanwl gywir yn sgîl hanfodol i'w ddysgu yn ystod eich astudiaethau, a lluniwyd y llawlyfrau hyn i'ch cefnogi yn eich dysgu ac i helpu i'ch arwain drwy'r hyn sy'n gallu ymddangos yn eithaf dryslyd ar brydiau. Mae'r llawlyfrau cyfeirnod ar gael i'r pedair arddull a ddefnyddir yn y Drindod Dewi Sant, gydag awgrymiadau ar gyfer adnoddau pellach, manwl a chynghor ynghylch cael cefnogaeth gan eich Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd.

Hoffem ddiolch i'r staff academaidd a gymerodd ran am eu hamser a'u mewnbwn wrth ddatblygu'r llawlyfrau hyn, gan obeithio eu bod yn darparu adnodd defnyddiol.

Rydym yn falch o dderbyn adborth ar y canllawiau hyn, a fydd yn cael eu hadolygu. Cysylltwch â library@uwtsd.ac.uk gydag unrhyw awgrymiadau.

Tîm Cyswllt Academaidd, Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, y Drindod Dewi Sant

Adnodd wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ddiwethaf: Hydref 2024

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Awst 2025

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?	3
Beth yw cyfeirnod?	3
Sut caf i help a chefnogaeth bellach?	4
Cyfeirnod IEEE: Yr Hanfodion.....	5
Rhestr gyfeiriadau	6
Dyfyniad hir - 3 llinell neu fwy	6
Dyfyniad byr - llai na 3 llinell	7
Aralleirio a chrynhoi	7
Sut dylwn i gyfeirnod mathau penodol o adnoddau?	8
1. Llyfrau ac e-lyfrau	8
2. Erthyglau cyfnodolion	9
3. Rhynggrwyd	11
4. Cynadleddau	13
5. Traethodau hir a thraethodau ymchwil	14
6. Adroddiadau a llawlyfrau.....	15
7. Cyhoeddiadau cyfreithiol.....	16
8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol.....	17
9. Teledu a radio	18
10. Meddalwedd, apiau a gemau cyfrifiadurol.....	19
11. Delweddau.....	20
12. Anghyhoeddedig.....	21
laith	22
Meddalwedd Cyfeirnod.....	23

Cyflwyniad

Argymhellir pedair arddull gyfeirnod i'w defnyddio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:

- APA (Cymdeithas Seicolegol America)
- Harvard
- IEEE (Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electroneg)
- MHRA (Cymdeithas Ymchwil y Dyniaethau Modern)

Cewch wybod pa safon gyfeirnod i dylech ei defnyddio drwy edrych yn eich Llawlyfr Rhaglen.

Mae'r holl lawlyfrau cyfeirnod ar gael ar-lein: <https://uwtsd.ac.uk/cy/library/partnership-and-external-borrowers>

Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?

Diben y llawlyfr hwn yw darparu ar eich cyfer egwyddorion sylfaenol cyfeirnod, a'ch rhoi ar ben ffordd i ddeall popeth am gyfeirnod. Mae'r llawlyfr yn darparu enghreifftiau o sut i greu dyfyniadau yn y testun a chyfeiriadau ar gyfer rhai o'r ffynonellau mwyaf cyffredin y byddech efallai'n dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich testun yn y blwch hwn.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth yn y blwch hwn.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r llawlyfr hwn fod yn gynhwysfawr a cheir enghreifftiau ychwanegol, a chyfarwyddyd ar wefan yr IEEE:

[Teitlau a Byrfoddau Cyfnodolion IEEE](#)

[Llawlyfr Arddull Cyfeirnod IEEE: \(Diweddarwyd 2022\)](#)

[Cronfa ddata \(Ar-lein\) Cite Them Right](#)

Argraffiad cyfredo R. Pears and G. Shields, *Cite them Right: The Essential Referencing Guide*, 12fed arg. Basingstoke, UK: Bloomsbury, 2022.

Beth yw cyfeirnod?

Wrth lunio aseiniad academiaidd, disgwylir i chi gydnabod gwaith pobl eraill drwy ei gyfeirnod mewn fformat cydnabyddedig a chyson. Bydd angen hefyd i chi ddarparu manylion yr adnoddau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad. Mae nifer o resymau pam mae hyn yn angenrheidiol:

- Dangos ehangder yr ymchwil rydych wedi ymgymryd ag ef.
- Ychwanegu hygredd academiaidd at eich dadleuon.
- Galluogi darllenwyr i ddod o hyd i'r ffynonellau rydych wedi'u defnyddio yn eich gwaith.
- Cydnabod gwaith pobl eraill ac osgoi llên-ladrad damweiniol.

Sut dylwn i osgoi llên-ladrad?

Mae cyfeirnodî'n gywir hefyd yn golygu eich bod yn osgoi llên-ladrad, sef honni mai chi a luniodd waith rhywun arall. Gellir dod o hyd i ddiffiniad cyflawn y Brifysgol o lôn-ladrad yn rheoliadau'r Brifysgol: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd>

Gall llên-ladrad fod yn fwriadol neu'n ddamweiniol; heb gyfeirnodî cywir, mae'n bosibl llên-ladrata gwaith rhywun arall yn ddamweiniol. Felly, bydd deall sut a phryd i gyfeirnodî'n eich helpu i osgoi hyn yn hawdd.

Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith?

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa arddull gyfeirnodî mae'ch Ysgol yn ei hargymell cyn dechrau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn eich Llawlyfr Rhaglen.
- Cadwch gofnod o'r ffynonellau rydych yn eu darllen wrth fynd.
- Byddwch yn gyson yn y cofnodion a gadwch ac yn y ffordd y byddwch yn cyfeirnodî.
- Rhowch ddigon o amser i chi wirio'ch gwaith.
- Ceisiwch roi'ch hun yn lle'r darllenydd. Meddyliwch: "os oeddwn yn dymuno dod o hyd i ffynhonnell y wybodaeth yma, fyddwn i'n gallu?"
- Os nad ydych yn siŵr, ceisiwch eglurhad neu ofyn am help!

Sut caf i help a chefnogaeth bellach?

Cewch sesiwn ar gyfeirnodî yn eich dosbarth yn ystod blwyddyn gyntaf eich cwrs. Bydd gweithdai rheolaidd a chyfleoedd i alw heibio hefyd ar gael ar hyd y flwyddyn academaidd drwy ein rhaglen Sgiliau Gwybodaeth: intranet.uwtsd.ac.uk/cy/adrannau/llyfrgell-ac-adnoddau-dysgu/sgiliau-academaidd-gwybodaeth. Dilynwch @UWTSDLib ar Facebook, 'X' (sef Twitter gynt) neu Instagram i archwilio ein digwyddiadau ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bryd ac ymhle y cynhelir y rhain.

Mae Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd ar gyfer pob maes academaidd, a'i rôl yw eich cefnogi gydag amryw o sgiliau gwybodaeth ar hyd eich cwrs. Gallwch weld pwy yw'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a gwneud apwyntiad yma: intranet.uwtsd.ac.uk/cy/adrannau/llyfrgell-ac-adnoddau-dysgu/defnyddio-ein-llyfrgelloedd/trefnu-apwyntiad neu drwy alw yn eich llyfrgell agosaf yn Y Drindod Dewi Sant.

Mae cymorth ar gyfer cyfeirnodî hefyd ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr, ac mae sesiynau galw heibio ar sgiliau astudio ar gael ar draws y campysau.

Dylai myfyrwyr mewn Sefydliadau Partner holi yn y llyfrgell yn eu sefydliad cartref i gael gwybod pa safon y dylent ei defnyddio a ble i gael cymorth.

Cyfeirnod IEEE: Yr Hanfodion

Mae arddull gyfeirnod IEEE yn system rifol, a ddefnyddir yn bennaf ym maes Cyfrifiadura ac mae'n cynnwys:

Cyfeiriad yn y testun

Defnyddir y rhain wrth gyfeirio at ffynhonnell gwybodaeth o fewn testun eich aseiniad i ddangos o ble y daeth. Dylid cydnabod ffynonellau gyda rhif cyfeiriad mewn cromfachau sgwâr [], gan barhau mewn trefn esgynnol ar hyd eich aseiniad, oni bai eich bod yn cyfeirio at ffynhonnell y cyfeiriwyd ati'n flaenorol, pryd dylech ailadrodd yr un rhif.

Os ydych yn dyfynnu'n uniongyrchol o'r ffynhonnell, yn aralleirio rhan benodol, neu'n cyfeirio at dablau, graffau penodol ac ati, dylech gynnwys y dudalen/ ffigur /lleoliad ar ôl rhif eich cyfeiriad.

Dylid gosod rhif y cyfeiriad yn y testun yn syth ar ôl y cyfeiriad ac o fewn yr atalnodi.

Enghreifftiau:

...fel y dangosir yn [1].

Cyfeirio at dudalen, pennod, delwedd, tabl penodol ac ati mewn ffynhonnell:

Dynoda priodweddau'r deunydd a ddewiswyd [2. t. 11, tabl 2.1] ...

Enghreifftiau pellach:

[2, Atodiad IV]; [2, Penn. 4, tt. 6-8]; [2, t.7, Ffig.2].

Defnyddio enw awdur i gyflwyno ffynhonnell:

Fel y'i dangoswyd gan Jones [3]...

Os oes tri awdur neu ragor, gallwch chi fyrhau i et al. ar ôl yr awdur cyntaf:

Y dull radical a gymerwyd gan Maher *et al.* [4]...

Cyfeirio at ffynonellau lluosog yn olynol:

Astudiaethau blaenorol [1]-[3] yn seiliedig ar eu meini prawf dethol ar...

Cyfeirio at ffynonellau lluosog nad ydynt yn olynol:

Mae ymchwilwyr [1], [3], [5] wedi deisio esbonio sut...

Cyfeirnod IEEE: Yr Hanfodion

Rhestr gyfeiriadau

Pwrpas y cyfeiriad yn y testun yw eich cyfeirio at fanylion llawn y cyhoeddiad mewn rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith. Dylai alluogi unrhyw ddarlennydd i ddod o hyd i'ch ffynhonnell wreiddiol. Yn arddull IEEE dylai'ch rhestr gyfeiriadau fod mewn trefn rifol (nid yn ôl yr wyddor) a dylid ei fformatio fel a ganlyn:

- Aliniwch gyfeiriadau i'r chwith.
- Dylai cofnodion fod mewn bylchiad sengl, gyda bylchiad dwbl rhyngddynt.
- Nodwch rif y cofnod wrth yr ymyl chwith, wedi'i amgáu mewn cromfachau sgwâr.
- Mewnosodwch destun y cofnodion.
- Gorffennwch gydag atalnod llawn (ac eithrio'r rhai sy'n gorffen gydag URL).

Weithiau gall eich tiwtor hefyd ofyn am lyfryddiaeth. Mae llyfryddiaeth yn rhestr o'r holl ffynonellau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad, os ydych wedi cyfeirio atynt yn eich testun neu beidio ac felly mae'n fwy cynhwysfawr na rhestr gyfeiriadau. Os nad ydych yn siŵr

Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhai yn fy ngwaith?

Dyfyniadau

Ystyr dyfyniad yw eich bod yn cymryd yr union eiriau a ddefnyddir gan awdur arall ac yn eu gosod yn eich gwaith. Rhaid i chi gynnwys rhif y dudalen (neu'r paragraff / lleoliad os nad oes tudalennau). Sylwer: Dylid defnyddio dyfyniadau uniongyrchol yn gynnil a dim ond pryd maent yn berthnasol i'r ddadl rydych yn ei gwneud yn eich gwaith.

Dyfyniad hir - 3 llinell neu fwy

Fformat:

- Crëwch baragraff ar wahân.
- Mewnosodwch y paragraff.
- Nid oes angen dyfynodau.
- Nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl [mewn cromfachau sgwâr].

Enghraifft:

Mae twf y cyfryngau cymdeithasol a hygyrchedd y rhyngwrwyd wedi arwain at gynnydd cyflym mewn dinasyddiaeth ddigidol. Fel y noda Bradley:

Over the last decade the internet has slowly but surely morphed into a resource that allows individuals to share whatever they wish, from their innermost thoughts to photographs of their suppers. Moreover, they can do this with virtually no technical background knowledge or skill [1].

Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhai yn fy ngwaith?

Dyfyniad byr - llai na 3 llinell

Fformat:

- Cynhwyswch ef yng nghorff y testun.
- Amgawch ef mewn dyfynodau dwbl.
- Nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl [mewn cromfachau sgwâr].

Enghraifft:

Mae Bradley yn pwysleisio y gall dinasyddion digidol modern gymryd rhan yn y gymuned ar-lein gyda “virtually no technical background knowledge or skill” [1].

Aralleirio a chrynhai

Aralleirio yw pan fyddwch yn cymryd syniad rhywun arall ac yn ei roi yn eich geiriau eich hun. Crynhai yw pan fyddwch yn rhoi trosolwg cryno o syniad rhywun arall. Dylech roi cyfeiriad hyd yn oed wrth aralleirio, i gydnabod y ffynhonnell. Byddai angen nodi rhif tudalen ond os ydych yn cyfeirio at adran neu ran benodol iawn o'r testun. Bydd angen i chi ddilyn eich barn eich hun a yw hyn yn angenrheidiol. Rhwch eich hun yn lle'r darlennydd; ydych chi'n cyfeirio at waith neu gysyniad cyfan neu at ran fach iawn ohono.

Enghraifft:

Noda Bradley [1] fod twf a hygyrchedd y rhyngwrwyd a'i phlatformau amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i gwneud yn haws nag erioed i unigolion ag ychydig iawn o wybodaeth TG ddod yn ddinasyddion digidol a chymryd rhan mewn cymuned ar-lein gynyddol.

Byrfoddau

Mae IEEE yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol yn y rhestr gyfeirio gael ei dalfyrru. Disgwylir y rhain fel arfer wrth gyfeirio ffynonellau megis erthyglau cyfnodolion, cynadleddau, safonau, gwefannau a phatentau.

Bydd y canllawiau canlynol yn eich helpu gyda'ch byrfoddau:

- Canllaw IEEE 2023
- Byrfoddau teitlau cyfnodolion a chyfeiriadau IEEE
- Mynegai Ffynhonnell CAS (CSI)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1. Llyfrau ac e-lyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lyfrau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- Teitl: is-deitl (mewn italig a'r geiriau arwyddocaol mewn prif llythrennau)
- Argraffiad (os ydy'n berthnasol)
- Dinas cyhoeddi: Cyhoeddwr
- Blwyddyn cyhoeddi

Ar-lein:

- DOI (gydag atalnod llawn ar ei ôl)
neu
- [Ar-lein]. Ar gael: URL (dim atalnod llawn)

1.1 Llyfr â hyd at chwe awdur

- [1] M.F. Ashby, H. Shercliff and, D. Cebon, *Materials: Engineering, Science, Processing and Design*, 4th ed. Oxford, UK: Butterworth-Heinemann, 2019.

1.2 Llyfr â mwy na chwe awdur

Sylwer bod hyn yn wahanol i'ch cyfeiriad yn y testun, sef tri neu ragor wrth ddefnyddio *et al.*

- [2] W.K. Chen, et al., *Linear Networks and Systems*, Belmont: Wasworth Press, 2003.

1.3 Pennod mewn llyfr â golygydd

- [3] S. Sasmal and I. Pan, "Reliable data auditing and ACO-based resource scheduling for cloud services," in *Swarm Intelligence for Cloud Computing*, I. Pan, M.A. Elaziz and S. Bhattacharyya, Eds., Boca Raton, FL: Chapman & Hall/CRC, 2021. tt. 107-125. doi: 10.1201/9780429020582.

1.4 Llyfr â sefydliad yn awdur

Yn yr achos hwn, ystyrir mai enw'r sefydliad yw'r awdur.

- [4] Huawei Technologies Co. Ltd., *Cloud Computing Technology*, 2023. Gateway East, Singapore: Springer Nature Singapore, 2023. doi: 10.1007/978-981-19-3026-3.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1.5 Cyfeiriad eilaidd

Cyfeiriad eilaidd yw pryd mae'r ffynhonnell gwybodaeth rydych yn ei defnyddio wedi crynhoi neu gyfeirio at waith neu ymchwil awdur arall, ac rydych eisiau defnyddio hyn yn eich gwaith chi.

Mae arddull gyfeirnodu IEEE yn argymhell y dylech bob amser geisio dod o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol a'i chyfeirnodu, ond os na allwch, fe'ch cynghorir i gyfeirio at y ffynhonnell gwybodaeth rydych wedi'i darllen, ond gwnewch hi'n eglur mai cyfeiriad eilaidd ydyw.

Enghraifft:

Fel y cyfeiriwyd yng ngwaith arloesol Williams Smith [1, t. 3] ar Rwydweithiau Cyfrifiadurol, priodolir dynodi "a significant skills gap in the area of cybersecurity" i Mark Barnett.

Yma, dylai [1] gyfeirio at lyfr William Smith rydych wedi'i ddaerllen, ac nid at lyfr Mark Barnett y mae yntau'n ei ddyfynnu.

2. Erthyglau cyfnodolion

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at erthyglau mewn cyfnodolion, papurau newydd a chylchgronau llynu at y fformat cyffredinol isod. Sylwer: tal fyrrir teitlau cyfnodolion, ac eithrio 'Proceedings of the IEEE' nad yw'n cael ei dalfyrru.

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at erthyglau mewn cyfnodolion, papurau newydd a chylchgronau llynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- "Teitl yr erthygl"
- Teitl y cyfnodolyn wedi'i dalfyrru (mewn print italig)
- Gwybodaeth am y gyfrol neu'r rhifyn
- Ystod y tudalennau neu rif yr erthygl (os yw'n hysbys)
- Mis, diwrnod a blwyddyn cyhoeddi wedi'u tal fyrru

Ar-lein:

- DOI (gydag atalnod llawn ar ei ôl) os yw neu
- [Ar-lein]. Ar gael: URL (dim atalnod llawn)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

2.1 Erthyglau cyfnodolion â hyd at chwe awdur

Gyda'r gyfrol, y rhifyn a'r tudalennau:

- [5] L. Ordinez, G. Eggly, M. Micheletto, and R. Santos, "Using UML for learning how to design and model cyber-physical systems," *IEEE-RITA*, cyf. 15, no. 1, tt. 50-60, Chwef. 2020, doi: 10.1109/RITA.2020.2978416.

Gyda rhif yr erthygl:

- [6] B. Liu, J. Jiang, S. Shen, F. Zhou, J. Shi, and Z. He, "Effects of curing methods of concrete after steam curing on mechanical strength and permeability," *Constr. Build. Mater.*, cyf. 256, Medi 2020, Art. no. 119441, doi: 10.1016/j.conbuildmat.2020.119441.

2.2 Erthyglau cyfnodolyn gyda mwy na chwe awdur

URL:

- [7] S. Shamshirband et al., "Sensorless estimation of wind speed by adaptive neuro-fuzzy methodology," *Int. Jnl. of Elect. Power and energy Syst.*, cyf. 62, tt. 490-495, Tach. 2014. Cyrchwyd: Awst 22, 2023. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0142061514002701>

DOI:

- [6] B. Scholkopf et al., "Toward casual representation learning," *Proceedings of the IEEE*, cyf. 109, no. 5, tt. 612-634, Mai 2021, doi: 10.1109/JPROC.2021.3058954.

Sylwer: Os ydych chi'n cyfeirio at bapur nad yw wedi'i gyhoeddi'n llawn mewn cyfnodolyn eto, dylech sicrhau eich bod yn defnyddio un o'r dulliau canlynol. Gweler [canllawiau IEEE](#) i weld enghreifftiau.

Rheswm:	Geiriad:
Mae papur wedi'i dderbyn neu ei drefnu ar gyfer cyhoeddiad yn y dyfodol.	i'w gyhoeddi (wedi'i ysgrifennu ar ôl teitl y cyfnodolyn)
Nid yw papur wedi'i dderbyn na'i drefnu i'w gyhoeddi eto.	cyflwynwyd i'w gyhoeddi (wedi'i ysgrifennu ar ôl teitl papur)
Mae gan bapur fynediad cynnar ar-lein. Sicrhau cynnwys dyddiad y fersiwn a'r doi.	mynediad cynnar (wedi'i ysgrifennu ar ôl teitl cyfnodolyn a chyn y dyddiad a'r doi).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

2.3. Erthygl mewn papur newydd (Darllenwyd trwy gronfa ddata NewsBank)

Sylwer: Defnyddiwch y permalink o gatalog y llyfrgell i'r gronfa ddata, nid URL y wefan.

- [9] M. Srivastava, "'Nevada Group' hackers hold almost 5,000 corporate computer networks to ransom — technology," *Financial Times*, t. 10. Chwef. 24, 2023. Cyrchwyd: Awst 23, 2023. [Ar-lein]. NewsBank. Ar gael: https://librarysearch.uwtsd.ac.uk/permalink/44WHELF_UWTSD/11c0I68alma9925262102421

2.4 Erthygl cylchgrawn (Darllenwyd ar-lein)

- [10] M. Sparks, "Analogue chips can slash the energy used to run AI models," *New Sci.* Awst. 23, 2023. Cyrchwyd: Awst 24, 2023. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.newscientist.com/article/2388005-analogue-chips-can-slash-the-energy-used-to-run-ai-models/>

3. Rhyngrwyd

Weithiau, gall fod yn anodd nodi'r math o wybodaeth a welwch ar y rhyngrwyd. Mae'n bwysig gwahaniaethu'n union at beth rydych chi'n cyfeirio. Dilynwch yr enghreifftiau o sut i gyfeirio at ffynonellau unigol, megis llyfrau, cyfnodolion, delweddu ac ati fel y dangosir yn y canllaw hwn. Dilynir y rheol hon hefyd wrth gyfeirio at PDF. Bydd angen i chi nodi'r fformat sy'n cyfateb agosaf at eich ffynhonnell.

Fel arfer, mae tudalennau gwefan a grëir gan unigolion a sefydliadau yn glynu wrth y fformat canlynol. Gall elfennau amrywio ychydig, yn dibynnu ar y ffynhonnell.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- "Teitl y dudalen, y postiad neu'r fideo"
- Teitl y wefan, blog/blog fideo
- Darllenwyd: mis, diwrnod, blwyddyn
- [Ar-lein]
- Ar gael: URL

Nid yw llawer o wefannau'n nodi awdur. Yn yr achos hwn defnyddiwch y sefydliad/awdur corfforaethol.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

3.1 Gwefan ag awdur

Awdur(on) unigol:

- [11] D. Steed and R. Black. "Moveit hack: Attack on BBC and BA offers glimpse into the future of cybercrime." *The Conversation*. Cyrchwyd: Awst 23, 2023. [Ar-lein]. Ar gael: <https://theconversation.com/moveit-hack-attack-on-bbc-and-ba-offers-glimpse-into-the-future-of-cybercrime-207670>

Awdur sefydliadol:

- [12] Intel. "What is a zero-day exploit." Intel. Cyrchwyd: Awst 23, 2023. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.intel.com/content/www/us/en/business/enterprise-computers/resources/what-is-a-zero-day-exploit.html>

3.2 Fideo/ffilm ar wefan rhannu

- [13] MATLAB, USA. *How to use Datastores* (Gorffennaf 18, 2023). Cyrchwyd: Awst 23, 2023. [Fideo ar-lein]. Ar gael: https://www.youtube.com/watch?v=E_uu4a1-KF8

3.3 Podlediad

- [14] G. Castelein. "Understanding machine learning software and platforms," *The Cloudcast* (Awst 16, 2023). Cyrchwyd: Awst 23, 2023. [Podlediad]. Ar gael: <https://www.thecloudcast.net/2023/08/understanding-machine-learning-features.html>

3.4. Blog

- [15] I. Mewburn. "Mind the gap (in the literature)." *The Thesis Whisperer* (May, 26, 2023) Cyrchwyd: Aug. 11, 2023. [Blog]. Ar gael: <https://thesiswhisperer.com/2023/05/26/literaturereviewpain/>

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

4. Cynadleddau

Gellir cyhoeddi papurau a thrafodion cynadleddau ar-lein neu mewn cyfnodolion. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol ar gyfer y rhai a gyhoeddir ar-lein. Gallwch chi ddarganfod llawer o'r rhain trwy'r cronfeydd data ar-lein ar [gronfa data Xplore IEEE](https://ieeexplore.ieee.org/).

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth (Trafodion llawn):

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Awdur(on) papur neu olygydd(ion) trafodion
- Teitl y gynhadledd mewn print italig (talfyredig)
- Dinas, talaith (talfyredig), gwlad
- Dyddiad
- Rhif y papur / tudalennau (os yw'n berthnasol)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth (Papurau unigol):

- [Online]
- Available: URL neu DOI (Dynodydd Gwrthrych Digidol) os ydy ar gael.
- Dyddiad y'i cyrchwyd mewn cromfachau sgwâr

Ar-lein:

- DOI (gydag atalnod llawn ar ei ôl
neu
- [Ar-lein]. Ar gael: URL (dim atalnod llawn)

4.1 Trafodion cynhadledd llawn

Gydag URL:

- [16] M. Marchal, R.J. Teather and B. Thomas, Eds., 2017 *IEEE Symp. 3D User Interfaces (3DUI)*, Los Angeles, CA, USA, Mai 18-19, 2017. [Ar-lein]. Ar gael: <https://ieeexplore.ieee.org/xpl/conhome/7889402/proceeding>

4.2 Papur cynhadledd unigol a gyhoeddwyd yn y trafodion

Gydag DOI:

- [17] M. Niemeyer and A. Geiger, "GIRAFFE: Representing scenes as compositional generative neural feature fields," in *2021 IEEE/CVF Conf. Comput. Vision Pattern Recognition (CVPR)*, Nashville, TN, USA, 2021, tt. 11448-11459. [Online]. doi: 10.1109/CVPR46437.2021.01129.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

5. Traethodau hir a thraethodau ymchwil

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at draethodau hir a thraethodau ymchwil lynu at y fformatau cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol. Sicrhewch fod gennych ganiatâd cyn defnyddio deunydd sydd heb ei gyhoeddi yn eich gwaith. Os yw'r traethawd ymchwil ar gael ar-lein dylech nodi'r URL i helpu i ddod o hyd iddo.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- "Teitl y traethawd ymchwil"
- MSc thesis NEU PhD dissertation
- Adran (os ydy'n hysbys)
- Prifysgol
- Dinas y Brifysgol
- Blwyddyn cyflwyno

Ar-lein:

- DOI (gydag atalnod llawn ar ei ôl)
neu
- [Ar-lein]. Ar gael: URL (dim atalnod llawn)

5.1 Msc

- [18] D. Williams, "Shirdi Sai Baba Online: devotion in cyberspace," MSc. thesis, UWTSD, Lampeter, Wales, 2012 [Ar-lein]. Ar gael: <http://repositroy.uwtsd.ac.uk/id/eprint/432>

5.2 PhD

- [19] N. Van der Beek, "From practice to theory: computational studies on fluorescence detection and laser therapy in dermatology," PhD. thesis, Sc. Appl. Comput., UWTSD, Swansea, Wales, 2017. [Ar-lein]. Ar gael: <https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/819/>

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

6. Adroddiadau a llawlyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adroddiadau a llawlyfrau llynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur (os ydynt ar gael)
- "Teitl yr adroddiad" **NEU** Deitl y Llawlyfr (mewn italig)
- Enw talfyredig y cwmni
- Lleoliad
- Rhif yr adroddiad (os yw ar gael)
- Dyddiad

Ar-lein:

- DOI (gydag atalnod llaw ar ei ôl)
neu
- Dyddiad darllen. [Ar-lein]. Ar gael: URL (dim atalnod llawn)

6.1 Adroddiad ymchwil

- [20] D. Corbus and M. Meadors, "Small wind research turbine," Nat. Renewable Energy Laboratory, Golden, CO. USA, Final Rep., NREL/TP-500-38550, Oct. 2005.

6.2 Adroddiad ymchwil ar gael ar-lein

- [21] *Motorola Semiconductor Data Manual*, Motorola Semiconductor Products Inc., Phoenix, AZ, USA, 1989.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

7. Cyhoeddiadau cyfreithiol

Rhoddir yr enghreifftiau isod o gyhoeddiadau cyfreithiol ar fformat IEEE. Gall hyn fod yn wahanol i systemau cyfeirnodu, megis Safon Rhydychen ar gyfer Cyfeirio at Awdurdodau Cyfreithiol (OSCOLA), a ddefnyddir mewn nifer o ysgolion y gyfraith yn y DU.

7.1 Deddf Seneddol (Statud)

[22] UK Parliament, *Computer Misuse Act 1990*, c.18. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/18/enacted>

7.2 Papurau Gwyrdd a Gwyn

Cyfeiriad yn y testun:
[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- ABlaenlythyren/blaenlythrennau a chyfenw'r awdur neu wlad, ac wedyn yr adran o'r llywodraeth
- Teitl (mewn print italig)
- Rhif y ddogfen (os yw'n hysbys)
- Lle cyhoeddi: cyhoeddwr, blwyddyn

Electronig:

Yr uchod ynghyd â

- DOI neu [Ar-lein]. Ar gael: URL

[23] United Kingdom. Dept. of Health and Social Care, *2017/18 Data security and Protection Requirements*, DDP/13920, London: UK Government, 2018. [Ar-lein]. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a74994f40f0b61938c7ec22/17-18_statement_of_requirements_Branded_template_final_22_11_18-1.pdf

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at wybodaeth wyddonol a thechnegol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

8.1 Safon Dechnegol

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Teitl y safon (mewn print italig)
- Rhif y safon
- awdur corfforaethol (os yw'n berthnasol)
- Lleoliad (os yw'n berthnasol)
- Dyddiad

Electronig:

Mae'r uchod ynghyd â

- [Ar-lein]. Ar gael: URL

[24] *IEEE Standard Technical Specifications of a DC Quick Charger for Use with Electric Vehicles*, IEEE Std 2030.1.1-2015, 2016.

8.2 Patent (ar-lein)

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Enw'r ddyfais
- 'gan' enw'r dyfeisiwr/dyfeiswyr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r dyfeisiwr
- Dyddiad (blwyddyn, mis, diwrnod)
- Rhif y patent
- [Ar-lein]. Ar gael: URL

[25] Docking station with rotating connector for media player, by T. O'Brian, D. Stranden and M. Warren. (2014, Gorfennaf 4). UK Patent GB2508331. [Ar-lein]. Ar gael: <https://worldwide.espacenet.com>

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

8.3 Graffiau, ffigurau a thablau

Wrth gyfeirio at graffiau, tablau, ffigurau ac ati o'ch ffynhonnell, dylid cynnwys y manylion penodol yn eich cyfeiriad yn y testun nid eich rhestr gyfeiriadau. Am enghreifftiau o sut i gyfeirio at unrhyw ddelweddau rydych chi'n eu cynnwys yn eich gwaith, gweler adran 11.

Cyfeiriad yn y testun:

[Cyfeiriad a bennwyd, ac wedyn tudalen/darlun/ffig. ac ati]

Enghraifft:

[25, t.21, Ffig.9]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Ffynhonnell y cyfeiriad (e.e. llyfr, erthygl cyfnodolyn, ac ati) yn unol â'r canllawiau priodol a nodir yn y ddogfen hon.

- [26] M.F. Ashby, H. Shercliff and, D. Cebon, *Materials: Engineering, Science, Processing and Design*, 4th ed. Oxford, UK: Butterworth-Heinemann, 2019.

9. Teledu a radio

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at ffilm a theledu llynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol. Darperir enghreifftiau penodol yn cael eu darparu. Os cyhoeddir cyfweiliad, cyfeiriwch yn ôl y fformat (e.e. erthygl mewn cyfnodolyn, gwefan ac ati). Os nad yw'n gyhoeddedig, cyfeiriwch ato yn gyfathrebiad personol.

9.1 Darllediad teledu neu radio

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r cyflwynydd
- "Rhifyn" neu "deitl y cyfweiliad" os yw'n berthnasol
- Teitl y rhaglen (mewn llythrennau italig)
- Mis, diwrnod, blwyddyn.
- [Darllediad radio/teledu]
- Lle darlledu: darlledwr

- [27] D. McIntyre, "What Facebook knows about you," *Panorama*. Mai 8, 2017.
[Darllediad Teledu]. London: BBC.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

10. Meddalwedd, apiau a gemau cyfrifiadurol

Mae IEEE yn dilyn egwyddorion cyfeirio meddalwedd penodol. Cyfeiriwch at [lawlyfr IEEE](#) ac [Egwyddorion Cyfeirnodu Meddalwedd FORCE11](#) am esboniadau ac enghreifftiau pellach.

10.1 Meddalwedd

Mae llawer o gyfeiriadau at feddalwedd yn cadw at y fformat sylfaenol cyffredinol canlynol. Gall yr elfennau amrywio ychydig. Pan fydd meddalwedd yn bodoli fel cod ffynhonnell a math arall, dyfynnu'r cod ffynhonnell.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur
- Teitl y Feddalwedd (mewn print italig)
- Dyddiad Storfa neu Archif
- (fersiwn neu flwyddyn)
- Enw'r Cyhoeddwr.
- Dyddiad darllen (pan fo'n berthnasol)
- [Math o Gyfrwng]
- Dynodydd Parhaus Cyffredinol
- Ar gael: URL / ffeil

[28] D.W. Arning et al. *Mixed Mode - Mixed Level Circuit Simulator*. (2011). Ngspice. Cyrchwyd: Ion. 11, 2019. [Ar-lein]. Ar gael: <http://ngspice.sourceforge.net>

10.2 Ap Symudol

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Enw'r Creawdydd / Sefydliad
- Teitl yr ap (mewn print italig)
- (Fersiwn/blwyddyn)
- Cyhoeddwr
- Darllenwyd: dyddiad. [Ap symudol]. Ar gael: URL

[29] Spotify. *Spotify Music and Podcasts App*. (Version 8.9.60 for iOS), Spotify Ltd. Cyrchwyd: Awst 3, 2024. [Ap Symudol]. Ar gael: <https://apps.apple.com/gb/app/spotify-music-and-podcastst/id324684580>

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

10.3 Cod

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythyren a chyfenw'r awdur
- Teitl y fhaglen neu god ffynhonnell
- Rhif y fersiwn
- Blwyddyn
- Darllenwyd: Talfyr. Mis, diwrnod, blwyddyn.
- [Cod ffynhonnell]
- Ar gael: URL neu gyhoeddwr

- [30] C.Parnot, Cellular and Molecular Bioengineering, 1.0, 2012. Darllenwyd: Hyd. 21, 2020. [Cod Ffynhonnell]. Ar gael: <https://github.com/citation-style-language/styles/blob/master/cellular-and-molecular-bioengineering.csl>

11. Delweddau

Efallai yr hoffech gynnwys delweddau yn eich gwaith. Gallwch ddefnyddio delweddau at ddibenion addysgol cyfyngedig yn rhan o drwydded CLA y Brifysgol. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n tudalennau hawlfraint. Os ydych chi wedi eu haddasu mewn unrhyw ffordd, rhaid i chi wneud hynny'n glir i'ch darllenydd yn eich testun a chynnwys y geiriau 'addaswyd' yn eich cyfeiriad.

11.1 Ffotograffau (rhyngrwyd)

Am ragor o enghreifftiau, gweler Cite Them Right.

- [31] C. Jarvis. *Deep dive*. Cyrchwyd: 18 Awst 2023. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.chasejarvis.com/photos/deep-dive>

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

11.2 Darluniau llyfrau, ffigurau, diagramau, logos a thablau

Pan fyddwch yn cynnwys delweddau (neu dablau) gwreiddiol neu wedi'u haddasu yn eich gwaith, rhaid i chi eu labelu (fel arfer o dan y ddelwedd / tabl) gyda ffigur neu rif tabl, er mwyn gallu eu trafod yn eich testun. Bydd angen i chi gynnwys y geiriau a atgynhyrchir neu a addaswyd ynghyd â rhif y cyfeiriad a'r rhif tudalen yn eich cyfeiriad yn y testun.

Enghraifft o label: Ffigur 3: Cymharu data gwerthu [addaswyd o 1, t.3]

Enghraifft yn y testun: Mae ffigurau gwerthiant yn Ffigur 3 yn dangos bod...

Os byddwch yn cynnwys eich delwedd eich hun (e.e. logo, ffotograff, ac ati nad yw ar gael i'r cyhoedd) fel arfer nid oes angen i chi gynnwys geiriau ond dylai gynnwys teitl a nodi mai eich gwaith eich hun ydyw gan ddefnyddio rhywbeth megis 'casgliad personol', neu 'fy nelwedd fy hun'.

Wrth gyfeirio at (ond heb gynnwys) delwedd, dilynwch y canllawiau cyfeirio yn ôl eich ffynhonnell e.e. llyfr, gwefan, erthygl. Yn eich cyfeiriad yn y testun rhwch rif a disgrifiad y dudalen, (e.e., tabl, dar., ffig.) a ddefnyddir, i helpu'ch darlennydd i nodi lleoliad y ddelwedd. Cyfeiriwch at adran 8.3 o'r canllawiau hyn am enghreifftiau.

12. Anghyhoeddedig

Fel rheol, cyfathrebiad personol neu bapur sydd wrthi'n cael ei baratoi yw deunydd anghyhoeddedig.

Cyfeiriad yn y testun:

[Rhif cyfeiriad a bennwyd]

Rhestr gyfeiriadau / llyfryddiaeth:

- Rhif cyfeiriad a bennwyd mewn cromfachau sgwâr
- Blaenlythrennau a chyfenw'r awdur.
- Cyfathrebu preifat
- Talfyr. Mis, Blwyddyn.

neu

- "Teitl y papur"
- anghyhoeddedig

12.1 Papurau anghyhoeddedig

[32] D. Brown, "Energy transfer efficiency in renewable energy technologies," anghyhoeddedig.

12.2 Cyfathrebiad personol

[33] N.S. Thomas, cyfathrebiad preifat, Mehefin, 2023.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

12.3 AI Cynhyrchiol (e.e. ChatGPT)

Uniondeb academiaidd yw bod yn onest mewn unrhyw waith a wnewch chi yn eich astudiaethau. Mae defnyddio trydydd partïon (ffrindiau, melinau traethawd neu ddeallusrwydd artiffisial) i greu gwaith rydych chi'n ei hawlio wedyn mai chi a'i gwnaeth yn annerbyniol.

Byddwch yn derbyn arweiniad ar unrhyw ddefnydd o AI yn eich gwaith yn eich briff aseiniad. Os ydych wedi cael **caniatâd penodol** i ddefnyddio AI Cynhyrchiol yn eich gwaith, dylech **ei gydnabod** yn unol â'ch cyfarwyddiadau byr aseiniad.

Felly, dylid cyfeirio at AI Cynhyrchiol yn eich gwaith yn unig os yw'r deunydd a ddefnyddir:

- **Ar gael i'r cyhoedd** ar-lein (e.e. delwedd neu erthygl a gynhyrchir gan AI) sy'n galluogi eraill i'w gweld neu ei hadalw. Byddwch yn cyfeirio at hyn yn ôl y math o ffynhonnell lle mae i'w chael (e.e. gwefan, llyfr, erthygl, ac ati).

laith

Fel arfer, dylid llunio cyfeiriadau yn eu hiaith wreiddiol, ni waeth pa iaith rydych chithau'n ysgrifennu ynddi. At hynny, dylid hefyd gynnwys DOI neu ISSN ar gyfer cyfnodolion (ISBN ar gyfer llyfrau), yn eich cyfeiriad i alluogi'ch darllenydd i ddod o hyd i'r ffynhonnell e.e.

- [1] B. Rappin, "Une herméneutique du texte taylorien: Exception, coopération, amitié," *Revue Française de Gestion*, cyf. 44, no. 276, tt.33-45, 2018, doi: 10.3166/rfg.2018.00274.

Fodd bynnag, os ydynt hefyd mewn sgript wahanol (e.e. Japanëeg, Tsieinëeg, Cyrilig, Arabeg, ac ati, dylent barhau yn eu hiaith wreiddiol ond dylid eu rhoi yn y sgript mae'ch gwaith eich hun yn ei defnyddio h.y. yn fwyaf tebygol, sgript Ladin).

Er enghraifft:

- [2] 鷲田清一, 京都の平熱 : 哲学者の都市案内, 東京: 講談社, 2007.

dylid ei newid i:

- [2] K. Washida, *Kyōto no heinetsu: tetsugakusha no toshi annai*, Tōkyō: Kōdansha, 2007.

Meddalwedd Cyfeirnod

Pan fyddwch wedi meistroli hanfodion cyfeirnod gan ddefnyddio'r llawlyfr hwn a'r adnoddau ategol a argymhellir, gallwch ystyried symud ymlaen at feddalwedd ar-lein. Mae'r Llyfrgell yn rhoi mynediad i **RefWorks**, rhaglen ar-lein sy'n eich helpu i gofnodi'ch ffynonellau mewn un lle ac yn rhoi cymorth i chi eu cyfeirnod. Cewch fynediad ati ar wefan y llyfrgell, gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi yn Y Drindod Dewi Sant: intranet.uwtsd.ac.uk/departments/library-and-learning-resources/academic-and-infoskills/refworks

Hefyd mae amrywiaeth o ddewisiadau ffynhonnell agored megis MyBib, Zotero a Mendeley sy'n gallu darparu gweithrediadau tebyg, fodd bynnag sylwer nad yw'r Drindod Dewi Sant yn rhoi cymorth ar gyfer defnyddio'r platfformau hyn nac yn darparu unrhyw feddalwedd gysylltiedig ar offer TG y Brifysgol.

Er y gall meddalwedd gyfeirnod fod yn offeryn defnyddiol dros ben ar gyfer trefnu'ch ymchwil, nid yw bob amser yn gywir 100% ac ni ddylai ddisodli'r gwaith o ddatblygu'r sgiliau hyn eich hun. Byddai'n ddoeth cael dealltwriaeth o gyfeirnod cyn i chi symud at ddefnyddio un o'r platfformau hyn; mae'n hanfodol gwirio'ch cyfeiriadau am gywirdeb, yn enwedig yr atalnodi a phriflythrennau.

Fodd bynnag, os teimlwch eich bod yn barod i ddefnyddio meddalwedd gyfeirnod neu os hoffech ddarganfod rhagor amdani, defnyddiwch y tiwtorialau ar-lein sydd ar gael ar wefan RefWorks, neu cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a fydd yn hapus i'ch cefnogi.